

Cyngor Sir Bro Morgannwg

GWASANAETHAU CYMDEITHASOL



Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Cymdeithasol 2016 – 2017

Cynnwys

	Tudalen
1. Cyflwyniad	3
2. Crynodeb Perfformiad y Cyfarwyddwr 4	
3. Sut mae Pobl yn Llunio ein Gwasanaethau?	5
4. Hyrwyddo a Gwella Lles y Bobl Rydym yn eu Helpu	9
(a) Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau 9 lles personol y mae pobl yn eu cyflawni	
(b) Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hyrwyddo iechyd corfforol a meddwl a lles emosiynol pobl	14
(c) Gweithredu i warchod a diogelu pobl rhag cam-drin, esgeuluso neu niwed	18
(d) Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chyfrannu at gymdeithas	21
(e) Helpu pobl i ddatblygu'n ddiogel a chynnal perthnasau domestig, teuluol a phersonol iachus	23
(f) Gweithio gyda a chefnogi pobl i gyrraedd lles economaidd gwell, cynnal bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n bodloni eu hanghenion	25
5. Sut y Gwnawn yr Hyn a Wnawn 28	
(a) Ein Gweithlu a Sut Rydym yn Cefnogi eu Rolau Proffesiynol	28
(b) Ein Hadnoddau Ariannol a Sut Rydym yn Cynllunio at y Dyfodol	28
(c) Ein Gwaith Partneriaeth, Arweinyddiaeth Wleidyddol a Chorfforaethol, Llywodraethu ac Atebolrwydd	29
6. Cael Gwybodaeth Bellach a Dogfennau Allweddol	30

1. Cyflwyniad

Wrth eich croesawu i'n Hadroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol 2016-2017 gallech sylwi pa mor wahanol yw'r adroddiad hwn i'r adroddiadau blaenorol. Yn dilyn newidiadau i ddeddfwriaeth bydd holl awdurdodau lleol Cymru'n adrodd ar berfformiad gwasanaethau cymdeithasol yn ôl ystod newydd o fesurau lles sy'n eich galluogi i gofnodi sut rydym yn cyfrannu at les pobl sy'n cael gwasanaethau gofal a chymorth. Yr adroddiad hwn yw ein cyfle cyntaf i gofnodi ein cynnydd yn y fformat newydd hwn, rhywbeth a gaiff ei safoni ledled Cymru o'r flwyddyn nesaf.

Fel Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Bro Morgannwg mae'n bleser gennyf amlinellu sut rydym wedi cyflawni gwelliannau yn lles y bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau, mewn partneriaeth â phobl a'n partneriaid. Mae gan y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, wrth weithio gyda gweddill y Cyngor, ystod o wasanaethau i bobl y mae arnynt angen ein help, mewn ffordd sy'n ein galluogi gyda'n gilydd i ganolbwyntio ar hyrwyddo a gwella lles y bobl rydym yn eu cefnogi.

Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2016-20 wedi cynnwys barn trigolion, partneriaid a staff i lywio ein prif flaenoriaethau wrth fynd ymlaen yn seiliedig ar 4 Canlyniad Lles:

- Canlyniad Lles 1: Bro Gynhwysol a Diogel, lle mae gan ddinasyddion ansawdd bywyd da ac maent yn teimlo'n rhan o'r gymuned leol;
- Canlyniad Lles 2: Bro sy'n Gyfrifol ac yn Llewyrchus ei Hamgylchedd, gydag economi gref a chynaliadwy, ac amgylchedd lleol a ddiogelir heddiw ac yfory;
- Canlyniad Lles 3: Bro gyda Diwylliant Fyw, lle caiff dinasyddion gyfleoedd i gyflawni eu potensial llawn;
- Canlyniad Lles 4: Bro Actif ac Iach, lle mae gan ddinasyddion fywydau iach ac y caiff pobl agored i niwed eu diogelu a'u cefnogi.

Mae'r canlyniadau hyn yn gysylltiedig ag ystod o fesurau lles sy'n ein galluogi i ddangos sut rydym yn perfformio wrth gyflawni ystod o wasanaethau, mewn ffordd integredig. Cyflwynwyd model integredig newydd o weithio i edrych ar bob agwedd ar ein trefniadau llywodraethu a chynllunio corfforaethol i sicrhau eu bod yn rhyng-gysylltiedig, yn cydategu, yn gyson ac nad ydynt yn cael eu gwneud yn unigol. Mae safonau lles yr adroddiad Gwasanaethau Cymdeithasol hwn yn gysylltiedig â'r canlyniadau lles cyffredinol rydym am eu cyflawni fel Cyngor. Mae'r gorgyffwrdd rhwng yr adroddiad hwn ac adrannau perthnasol o Gynllun Corfforaethol y Cyngor yn arwyddocaol ac aliniwyd meysydd blaenoriaeth gymaint ag sy'n ymarferol bosibl.

Yr adroddiad hwn yw ein ffordd o gofnodi cynnydd wrth gyflawni'r hyn y dywedom y gwnaem dros y 12 mis diwethaf ac wrth wneud hynny helpu pobl i ddeall sut mae'r Cyngor yn datblygu ac yn diwygio gwasanaethau yn y tymor hwy. Hoffwn ddiolch i bob aelod o staff, ein partneriaid ac aelodau'r cyhoedd a gyfrannodd at y gwaith hanfodol hwn. Wrth fabwysiadu'r dull gweithredu hwn rwy'n gobeithio y gwelwch y cysylltiadau rhwng yr hyn yr wyf i a'm tîm wedi'u gwneud wrth ddarparu gwasanaethau cymdeithasol, sy'n canolbwyntio ar anghenion pobl, ac effaith gyfunol y Cyngor wrth hyrwyddo a gwella lles y bobl y gallwn eu helpu.

3. Sut Mae Pobl yn Llunio ein Gwasanaethau?

Mae cyfraniad y cyhoedd yn bwysig, oherwydd ein bod yn gwerthfawrogi teimladau pobl am ein gwasanaethau, ac oherwydd bod eu cyfraniad yn hollbwysig os ydym am gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt.

Gall pobl y mae arnynt angen ein help, boed yn oedolion neu'n blant, roi gwybod i ni sut y gallwn ddarparu ein gwasanaethau drwy fod yn rhan o'r broses o werthuso pa mor effeithiol ydym. Rhydd ein harolygon ansoddol a gynhaliwyd dros y flwyddyn ddiwethaf, er enghraifft, syniad i ni am deimladau pobl am eu bywydau, sut mae gwasanaethau yn eu cefnogi a beth sy'n gwneud gwahaniaeth i'w hansawdd bywyd. Un o'n blaenoriaethau ar gyfer 2017-18 fydd defnyddio'r wybodaeth hon i helpu i lunio'r gwasanaethau a gynigwn ni a'n partneriaid.

Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn deall pwysigrwydd cynnwys defnyddwyr gwasanaeth a sicrhau eu bod yn teimlo'n rhan o'r broses o welliant parhaus yn ein gwasanaethau. Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, mae'r Swyddog Polisi a Sicrwydd Ansawdd i'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnal rhaglen gylchol o ymgynghori i ddysgu lefelau boddhad, yn benodol ystyried blaenoriaethau gwasanaethau fel y cadarnheir yn flynyddol gan yr uwch reolwyr. Wrth roi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar waith, mae ymgynghori wedi cynnwys mwy o ffocws ar ganlyniadau defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd.

Rydym yn ystyried profiadau defnyddwyr gwasanaeth o ddewis, a yw eu hanghenion yn cael eu bodloni drwy wasanaethau ac a ydynt yn teimlo eu bod yn gwneud cyfraniad digonol yn y broses asesu a chynllunio gofal. Llunnir adroddiad ar bob ymgynghoriad a chrëir cynllun gweithredu i fynd i'r afael â meysydd y nodwyd bod angen eu gwella ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol. I sicrhau bod dysgu mewn un maes yn cael ei drosi'n welliannau ar draws y Gyfarwyddiaeth, caiff materion hefyd eu cydgasglu fesul thema.

Ymhlith yr arolygon a wnaed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae: Dechrau'n Deg; CRS y Fro, Golau Caredig a Gwasanaethau Dydd i Bobl Hŷn.

Ar gyfer Dechrau'n Deg, roedd rhieni'n fodlon iawn ar y cymorth a gawsant. Mae rhieni'n teimlo ein bod yn gwrando arnynt ac nid ydynt ond yn cael rhai problemau wrth gysylltu â'r gwasanaeth. Rhoddwyd canmoliaeth fawr i ddarpariaeth crèche, yn ogystal ag agwedd y tîm a'r ffordd y mae'n ymdrin â phobl. Mae'r gwasanaeth wedi bodloni disgwyliadau ymron pob achos, gydag ychydig iawn o awgrymiadau ar gyfer gwella.

O ran Gwasanaeth Adnoddau Cymunedol y Fro, adroddodd defnyddwyr gwasanaeth lefelau uchel o foddhad ar y cymorth a'r staff. Teimlai defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn rhan o'r broses, a'u bod yn cael gwybodaeth iawn am bob agwedd ar ofal. Mae staff yn brydlon ac yn trin defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr â chwarteisi a pharch. Cydnabu nifer o bobl pa mor heriol fyddai eu bywydau pe na baent wedi cael cymorth gan VCRS.

Amlygodd yr ymgynghoriad i Golau Caredig y ffaith fod trigolion yn fodlon iawn ar y lle maent yn byw a'r cymorth a gânt. Roedd pobl yn hapus iawn gyda'r wybodaeth a

gawsant. Mae staff yn groesawgar ac mae rhan fwyaf y defnyddwyr gwasanaethau'n mwynhau gweithgareddau, yn arbennig wrth eu gwneud ag eraill, ac nid ydynt yn teimlo eu bod yn trefnu gweithgareddau'n ynysig. Hefyd, roedd pobl yn gwerthfawrogi'r cyfle i fod yn annibynnol, ond yn cael cymorth yn ôl yr angen.

Cafwyd ymgynghoriad ar y dydd â defnyddwyr gwasanaeth yn Nhŷ Rondel, Gwasanaeth Dydd i ddefnyddwyr gwasanaeth hŷn. Roedd pobl yn hapus iawn gyda'r wybodaeth a gawsant. Mae staff yn groesawgar ac mae rhan fwyaf y defnyddwyr gwasanaethau'n mwynhau gweithgareddau, yn arbennig wrth eu gwneud ag eraill. Mae defnyddwyr gwasanaeth yn fodlon ar y bwyd a gânt ac roedd adborth cadarnhaol iawn am bryd a gwedd y ganolfan.

Parhaodd hyn ynghyd â gofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer ymgysylltu. Yn 2016, gofynnodd Llywodraeth Cymru i berfformiad gwasanaethau cymdeithasol am fesur dan adran 145 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Dosbarthodd Llywodraeth Cymru holiaduron a llythyrau eglurhaol at ddibenion ymgynghori â'r holl ddinasyddion â chynllun gofal a chymorth ym Medi 2016. Roedd yn cynnwys plant a phobl ifanc a oedd yn hysbys i'r adran, eu rhieni, yr holl ofalwyr anffurfiol ac oedolion (roedd y cyfan ar gael yn Gymraeg, Saesneg a fformat syml lle nodwyd hynny'n briodol i'r dinesydd).

Nododd yr ymgynghoriad fod bron pob oedolyn yn teimlo bod ei anghenion lles yn cael eu bodloni. Teimlai ychydig yn llai na'u hanner y gallent wneud pethau sy'n bwysig iddynt, er bod angen cymorth ar rai gan eraill i wneud hyn (e.e. hobïau, cymdeithasu, chwaraeon). Adroddodd rhai y profant anawsterau wrth wneud pethau sy'n bwysig iddynt. Roedd hyn yn bennaf oherwydd problemau symudedd a'r ffaith nad oedd cymorth ar gael gan eraill.

Roedd ymdeimlad cryf o gydlyniad cymunedol yn amlwg gyda thri chwarter yn teimlo'n rhan o'r gymuned o leiaf weithiau. Ymwnâi rhai sylwadau â diffyg gweithgareddau a chawsai rhai dinasyddion sâl drafferth wrth gymdeithasu a chymysgu ag eraill. Roedd llawer o oedolion yn fodlon ar yr help a'r cymorth a gânt gan eu cymdogion, eu ffrindiau a'u teulu. Teimlai dros dri chwarter yn ddiogel, a phan na theimlai ymatebwyr hyn, aed i'r afael â'r peth ar unwaith.

Gŵyr oedolion â phwy y mae angen iddynt gysylltu am eu gofal a chymorth, ac mae nifer wedi cael y wybodaeth neu'r cyngor cywir. Teimla'r rhan fwyaf eu bod wedi bod yn rhan o benderfyniadau ar eu gofal a chymorth, a theimlai bron pob un eu bod wedi'u trin ag urddas a pharch. Yn fwy na hynny, mae nifer yn fodlon ar y gofal a chymorth a gawsant. O ran gofalwyr, mae bron tri chwarter yn byw mewn cartref sy'n cefnogi eu lles orau, a gallant weithiau wneud y pethau sy'n bwysig iddynt; ond maent yn teimlo bod y rôl ofalu'n effeithio ar bob agwedd ar eu bywydau eu hunain. Teimla'r rhan fwyaf yn rhan o'r gwasanaeth, ac wedi'u cefnogi yn eu rôl.

Dywedodd dros 90% o blant a phobl ifanc eu bod yn byw mewn cartref lle maent yn hapus, ac yn teimlo'n hapus â'r bobl y maent byw gyda nhw. Gallant wneud y pethau maent yn hoffi eu gwneud, o leiaf weithiau. Teimla dros 80% eu bod yn perthyn i'r ardal maent yn byw ynddi, a theimla'r un gyfran yn hapus gyda'r help a gânt gan y teulu, ffrindiau a chymdogion. Dywedodd pob un ei fod yn teimlo'n ddiogel o leiaf weithiau.

Mae rhan fwyaf y bobl ifanc yn gwybod â phwy y dylent siarad am eu gofal a chymorth, ac wedi cael y wybodaeth neu gyngor cywir yn ôl yr angen, ac yn teimlo bod eu barn ar y cymorth maen nhw wedi'i gael wedi'i wrando arni, ac yn teimlo eu bod wedi'u trin â pharch. Mae bron pob un yn teimlo'n fodlon ar y gofal a chymorth a gafodd, ac ymhlith y rhai 16-17 oed, mae pob un yn teimlo ei fod wedi cael cyngor, cymorth a helpu a fydd yn ei helpu i baratoi at fod yn oedolyn.

Teimlai pob rhiant a ymatebodd ei fod wedi bod yn rhan yn yr holl benderfyniadau ar ofal a chymorth ei blentyn/plant. Cyfleodd sawl un werthfawrogiad o'r cymorth a gafodd.

Yn fwyaf diweddar, ynghyd â'n partneriaeth ar draws Caerdydd a Bro Morgannwg, gwnaethom gynnal Asesiad Anghenion y Boblogaeth a fydd yn rhoi tystiolaeth i ni, a sylfaen i gynllunio gwasanaethau mwy effeithiol sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion. Defnyddiwyd dulliau a ffynonellau i gasglu gwybodaeth am yr asesiad hwn, i roi golwg gytbwys ar y prif anghenion gofal a chymorth ac asedau yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Fel rhan o'r gwaith hwn gwnaethom gynnwys; arolygon cyhoeddus, i oedolion a phobl ifanc; cyfweiliadau grŵp ffocws â thrigolion ac; arolwg i weithwyr proffesiynol lleol a sefydliadau gofal a chymorth.

Ategwyd y gwaith o ddatblygu Asesiad Lles Bro Morgannwg drwy arolwg "Let's Talk", ac er bod dros 1,000 o'n trigolion a rhanddeiliaid eraill wedi bod yn rhan o'r broses o siarad am fywyd yn y Fro cydnabyddwn fod angen gwneud mwy i gysylltu â grwpiau anodd cysylltu â nhw, cynnwys y sector preifat a bod yn fwy arloesol wrth gynnwys ein poblogaeth. Dangosodd yr arolwg fod cael mewnbwn i benderfyniadau'n bwysig iawn i drigolion y Fro, er mai rhai yn unig a ddywedodd y gallent ddylanwadu ar benderfyniadau. Fel rhan o'n hymgais i sicrhau cyfranogiad pobl wrth lunio'r hyn a wnawn, pennwyd blaenoriaeth i sefydlu Panel Dinasyddion sy'n adeiladu ar y strwythur ymgysylltu llwyddiannus sydd eisoes ar waith ym Mro Morgannwg. Comisiynwyd cymorth i sicrhau'r trefniant hwn ac rydym yn hyderus dros y blynyddoedd nesaf y gwelwn ymgysylltu a chyfraniad parhaus gan bobl wrth ein helpu i lunio a chyflawni gwasanaethau i Fro Morgannwg.

Rydym hefyd wedi sefydlu project o'r enw "Arbenigwyr drwy Brofiad" sy'n defnyddio arbenigedd, gwybodaeth a phrofiad rhai i'n defnyddwyr gwasanaeth i'n helpu i lywio modelau gwasanaeth yn y dyfodol.

Mae hefyd yn bwysig bod pobl yn dweud wrthym beth sy'n mynd o'i le. Ceidw'r Cyngor gofnod o ganmoliaeth a chwynion, ac yn ystod 2016-17 cawsom 109 cofnod o bryderon neu gwynion yn ystod y flwyddyn.

	Ymholiadau*	Cwynion
Gwasanaethau Oedolion	30	18
Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc	22	33
Rheoli Busnes ac Arloesi	1	5
Cyfanswm	53	56

(*Ymholiad yw testun pryder i'r defnyddiwr gwasanaeth, y delir ag ef gan y tîm heb symud i lefel cwyn)

Bu cynnydd yn nifer yr ymholiadau oddi ar y blynyddoedd cynt, ond mae nifer y cwynion wedi bod yn gyson dros y 5 mlynedd ddiwethaf.

4. Hyrwyddo a Gwella Lles y Bobl rydym yn eu Helpu

Mae lles a chanlyniadau pobl wrth wraidd ein hymagwedd at wasanaethau cymdeithasol cynaliadwy. Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gyfraith ym mis Ebrill 2016, a gweithio'n galed i sicrhau ein bod mewn sefyllfa dda i gyflawni'r nod o gefnogi lles pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth a gofalwyr y mae arnynt angen cymorth. Rydym am sicrhau bod gan ddinasyddion lais a rheolaeth wirioneddol dros eu bywydau eu hunain, a golyga hyn weithio mewn partneriaeth i lunio'r cymorth a'r gwasanaethau ym Mro Morgannwg.

Mae'r adran hon yn nodi ein perfformiad wrth hyrwyddo a gwella lles pobl ym Mro Morgannwg y mae arnynt angen gofal a chymorth a gofalwyr y mae arnynt angen cymorth. Rydym wedi'i nodi fel modd sy'n dangos sut mae ein gwaith yn gysylltiedig â'r chwe Safon Ansawdd Genedlaethol ar gyfer lles. Noda'r blaenoriaethau a nodom yn Adroddiad Blynyddol y llynedd, yn ogystal â meysydd blaenoriaeth ychwanegol sy'n gysylltiedig â ffyrdd newydd o weithio, ac yn rhoi gwybodaeth i ni am ein cynnydd. Mae'n rhoi data pan fo hyn yn berthnasol ac ar gael, yn rhoi esiamplau bywyd go iawn o'r effaith ar bobl, yn ogystal â phennu blaenoriaethau 2017/18.

SAFON LLES UN: Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau lles personol y mae pobl am eu cyflawni

Ein dull ni fel Cyngor yw cydweithio fel tîm sy'n ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'n partneriaid, yn parchu amrywiaeth ac sy'n ymrwymedig i wasanaethau o safon. Mae'n sylfaen i'r ffordd rydym am weithio gyda phobl.

Mae gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gysylltiad cryf â deddfwriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a'r newidiadau rydym yn eu cyflwyno. Er enghraifft, rydym wedi cysylltu'r ffordd y nodwn y materion sy'n bwysig i'n trigolion (Asesiad Lles) â'r asesiad poblogaeth sydd ynghylch pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth a gofalwyr y mae arnynt angen cymorth. Rydym wedi casglu llawer o wybodaeth drwy wrando ar yr hyn mae ein dinasyddion wedi'i ddweud wrthym amdanynt eu hunain a'u cymunedau fel rhan o ymgyrch "Let's Talk".

Mae cipolwg o'r gwaith hwnnw wedi dweud wrthym fod ychydig dros 1 o bob 10 (12%) a gwblhaodd ein harolwg yn cael gwasanaethau gofal a chymorth neu wedi'u cael o'r blaen. O'r rhai a gafodd wasanaethau, dywedodd 69 y cant eu bod yn hapus â'r gwasanaethau a gawsant. Dywedodd 59 y cant eu bod yn gallu gwneud cyfraniad digonol at benderfyniadau ar eu gofal a chymorth gyda chwarter arall yn dweud y gallent weithiau. Ni themlai 1 o bob 10 o bobl eu bod yn gallu gwneud cyfraniad digonol at y penderfyniadau hynny.

Beth bwriadom ei wneud y llynedd?

Ar gyfer 2016—2017 nodom ystod o flaenoriaethau cyflawni gan gynnwys:

- Atgyfnerthu ein gwaith i roi ar waith porth gwybodaeth DEWIS Cymru i sicrhau bod ganddo'r holl gynnwys i'r rhanbarth hwn ar waith, yn enwedig gwybodaeth am wasanaethau ataliol i oedolion a phlant;

- Adolygu a diwygio prosesau yn y Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid i ategu cyngor a chymorth;
- Cydlynu agweddau ar y gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar wasanaethau plant a phobl ifanc (gan gynnwys y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a Llinell Gyngor Teuluoedd yn Gyntaf);
- Gweithio tuag at integreiddio'n well y Gwasanaeth Gwybodaeth a Chyngor i bobl ag Awtistiaeth gyda gwaith yr IAA;
- Gwneud newidiadau i'n fframwaith i asesu a chynllunio mewn achosion unigol (gan gynnwys prosesau, arfer a seilwaith TG rheoli achosion) i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y Ddeddf a chanolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau a pharu anghenion a gwasanaethau;
- Parhau i gynyddu nifer y taliadau uniongyrchol.

I ba raddau y llwyddom a pha wahaniaeth a wnaethom?

Ar ôl nodi'r hyn y bwriadom ei wneud yn 2016 – 2017 roeddwn am i ni fod yn glir ynghylch y cynnydd a wnaethom a pha wahaniaeth y mae wedi'i wneud i'r bobl a helpwn. Gan ein bod yng nghamau cynnar datblygu rhywfaint o'r gwaith, mewn rhai achosion mae'n ymwneud â darnau o waith sy'n dal i fynd rhagddynt.

Atgyfnerthu ein gwaith i roi ar waith porth gwybodaeth DEWIS Cymru i sicrhau bod ganddo'r holl gynnwys i'r rhanbarth hwn ar waith, yn enwedig gwybodaeth am wasanaethau ataliol i oedolion a phlant.

Y man cychwyn ar gyfer sicrhau ein bod yn cyflawni canlyniadau o safon uchel yn gyson i sicrhau gwybodaeth glir a hygyrch. Mae hyn yn bwysig i bawb gan y bydd nifer ohonom naill ai angen gwasanaeth neu'n nabod rhywun a allai fod angen gwasanaeth. Rhaid bod gan bobl fynediad didrfferth at wybodaeth briodol fel y gallant gefnogi eu lles eu hunain. Rydym wedi datblygu ein blaenoriaeth o ddatblygu ymhellach y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA). DEWIS Cymru yw'r Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth i wybodaeth gwasanaethau cymdeithasol ledled Bro Morgannwg a Chaerdydd. Rydym am sicrhau bod ganddo'r holl gynnwys i'r rhanbarth hwn ar waith, yn enwedig gwybodaeth am wasanaethau ataliol i oedolion a phlant.

Lansiwyd DEWIS yn llwyddiannus ac rydym wedi bwrw ein targed o gyflawni 1,000 o adnoddau ar y porth gwybodaeth. Rydym yn dal i wella ac ymestyn yr adnoddau sydd ar gael, yn enwedig gwybodaeth am wasanaethau ataliol i oedolion a phlant. Rydym wrthi'n hyrwyddo'r adnodd i'n cydweithwyr proffesiynol ac i sefydliadau'r trydydd sector. Cynhaliom ddwy sioe deithiol ar les i sefydliadau trydydd sector, gweithwyr proffesiynol o ystod eang o asiantaethau (Iechyd, Heddlu, Tân, Ambiwlans, awdurdodau lleol) ac Aelodau Etholedig. Rydym wedi parhau i gefnogi datblygiad yr adnodd pwysig hwn drwy ariannu aelod o staff yn benodol i'r dasg hon sy'n dod o'r trydydd sector neu'r sector gwirfoddol.

Adolygu a diwygio prosesau yn y Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid i ategu cyngor a chymorth

Y Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid (Cyswllt Un Fro) yw'r brif ffordd o gysylltu os oes angen gwasanaethau cymunedol iechyd a gofal cymdeithasol ar bobl. Rydym wedi

sefydlu tîm integredig o staff y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r GIG sy'n helpu i gyfeirio pobl at y gwasanaethau cywir y tro cyntaf. Mae'r gwaith hwn wedi ein galluogi i gyfeirio a chefnogi pobl i gael y gwasanaethau y mae eu hangen arnynt ar y pwynt cyswllt cyntaf mewn ffordd amserol. Mae pobl wedi cael cyngor priodol gan y Ganolfan Gyswllt. Mae angen i fwy o bobl ddatrys eu hymholiadau yma sy'n golygu dibyniaeth is ar dimau mwy arbenigol. Mae nifer yr ymholiadau sydd angen ymyrraeth tymor hwy o ran rheoli gofal hefyd wedi lleihau.

Mae ein perfformiad yn dangos ein bod yn datrys ymholiadau'n effeithiol wrth y 'drws blaen'

drwy ein Canolfan Cyswllt Cwsmeriaid. Yn 2016-17 nid oedd angen i 86.96% o oedolion a gafodd wybodaeth a chyngor o'n gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth gysylltu â'r gwasanaeth eto.

ASTUDIAETH ACHOS

Mae Mrs F yn ddynes 80 oed sy'n cael gofal lliniarol gartref lle mae'n byw gyda'i gŵr. Arweiniodd galwad ffôn **hwyrnos** i'r meddyg teulu y tu allan i oriau at ymweliad lle nodwyd sawl mater – ni allai adael y gwely i fynd i'r ystafell ymolchi; nid oedd offer gartref a'r unig gyswllt proffesiynol oedd yr alwad bob pythefnos gan y nyrs ardal i newid y llinell PICC (cathetr).

Trefnodd y nyrs brysbennu o'r Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid i'r Nyrs Ardal ymweld ac asesu a gwnaed atgyfeiriad brys am becyn gofal. Dosbarthwyd comôd a deunydd ymataliaeth a threfnwyd ymweliadau nyrsio dyddiol.

Drwy'r dull integredig hwn, rhoddwyd gofal wedi'i deilwra, a alluogodd Mrs F i aros gartref mewn amgylchedd urddasol gyhyd â phosibl.

Cydlynu agweddau ar y gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar wasanaethau plant a phobl ifanc (gan gynnwys y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a Llinell Gyngor Teuluoedd yn Gyntaf)

Rydym yn gwella canlyniadau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd drwy ddarparu a hyrwyddo ystod o wasanaethau blynyddoedd cynnar sy'n cynnwys gwybodaeth a chymorth i rieni fanteisio ar wybodaeth a chymorth gofal plant a chyfleoedd dysgu.

Drwy ganolbwyntio ein hymdrechion ar ymyrraeth gynnar ac atal rydym wedi lleihau'n effeithiol yr angen am ymyriadau costus ac ymwithiol ar gam hwyrach i blant a phobl ifanc. Cyflawnwyd hyn drwy gydweithredu gwell rhwng rhaglenni a ariennir drwy grant Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf.

Mae'r Tîm Derbynn a Chymorth Teuluol yn cael atgyfeiriadau ac yn cynnig gwybodaeth am wasanaethau sydd ar gael i gefnogi plant a'u teuluoedd ar draws pob sector. Maent yn atgyfeirio a chyfeirio plant a theuluoedd at wasanaethau a chymorth priodol arall os, ar ôl rhagor o ymholiadau, nad ydynt yn gymwys i gael cymorth gwasanaethau cymdeithasol statudol. Ond, os oes angen help ar deuluoedd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol, maen nhw'n cael cynnig asesiad pellach i nodi anghenion a risgiau. Dyma sylfaen y gwaith i ddatblygu cynllun gofal a chymorth ynghyd â'r plentyn a'r teulu a'r holl asiantaethau eraill perthnasol.

- Canran yr oedolion a gafodd gymorth gan IAA ac sydd heb gysylltu â'r gwasanaeth eto yn ystod y flwyddyn. (NEWYDD) 84.78 i oedolion
- Canran yr asesiadau a gwblhawyd i blant o fewn amserlenni statudol. (NEWYDD) ar ddiwedd y flwyddyn oedd 71.76%

Gweithio tuag at integreiddio'n well y Gwasanaeth Gwybodaeth a Chyngor i bobl ag Awtistiaeth

Rydym wedi gweithio gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau, gofalwyr a phartneriaid allweddol eraill i ddatblygu gwelliannau'n unol â'r Strategaeth Awtistiaeth. Sefydlwyd grwpiau a arweinir gan ddefnyddwyr gwasanaeth a fforwm misol. Maent yn rhoi adborth ar wasanaethau ac yn rhoi llais go iawn i bobl, a rheolaeth iddynt. Bu'n amhrisiadwy wrth lywio cyfeiriad a darparu'r gwasanaeth yn y dyfodol. Mae'r adnodd cyflogaeth 'Gweithio gydag Awtistiaeth' wedi dod yn adnodd cenedlaethol a gefnogir gan arian Llywodraeth Cymru a staff CLILC. O ganlyniad, mae cannoedd o staff Gyrfa Cymru a'r Ganolfan Byd Gwaith wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn.

ASTUDIAETH ACHOS

Mae Mark (nid ei enw go iawn) yn ŵr ifanc yn ei 20au cynnar sydd wedi derbyn diagnosis o syndrom Asperger ac sy'n byw gyda'i rieni. Mae ganddo swydd adeiladu sy'n cynnwys astudio at gymwysterau gan Goleg Caerdydd a'r Fro. Cysylltodd mam Mark â'r gwasanaeth yn hydref 2016 gyda phryderon fod Mark wedi dechrau methu gwaith ac nad oedd yn mynychu'r Coleg. Fel teulu roeddent yn cael trafferth deall y cyflwr, sut effeithiai ar Mark a sut y gallent fel teulu gyfathrebu'n effeithiol a'i gefnogi. Pryder pellach oedd bod Mark eisiau teithio i'r UDA i weld ffrindiau ond nad oedd yn cynllunio'n briodol a byddai'n agored i niwed.

Cyfarfu staff â mam Mark a rhoi gwybodaeth am gyflwr Asperger a sut mae oedolion â'r cyflwr yn ymddwyn. Rhoes hyn ddealltwriaeth well i'r teulu o'r cyflwr, strategaethau y gellid eu defnyddio a pham y maent yn effeithiol.

Ar ôl y cyfarfod, cyfeiriwyd y teulu at ystod o adnoddau ar-lein a nodwyd fel rhai priodol. Yn eu plith roedd canllaw ôl-ddiagnosis, taflenni cymorth, ffilm gan oedolion am eu cyflwr a chymorth teithio. Hefyd cafodd Mark wahoddiad i fynychu fforwm oedolion y Barri. Mae'n bwysig nodi bod prosesu'r anawsterau a gaiff oedolion â chyflwr awtistiaeth yn golygu ei bod yn hanfodol teilwra'r wybodaeth a roddir. Nid yw atgyfeirio uniongyrchol at ystod eang o adnoddau fel DEWIS yn effeithiol gan fod hynny'n gorlwytho pobl â gwybodaeth, sy'n anodd ymdopi ag ef.

Gwneud newidiadau i'n fframwaith i asesu a chynllunio mewn achosion unigol (gan gynnwys prosesau, arfer a seilwaith TG rheoli achosion) i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y Ddeddf a chanolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau a pharu anghenion a gwasanaethau

Cydnabyddwn fod pawb yn unigolyn. Mae gan bob ohonom brofiad, sgiliau a gallu. Rydym am weithio gyda phobl i nodi'r hyn y gallant ei gyflawni a helpu i chwalu rhwystrau. Mae'n bwysig gwneud hyn â'r unigolyn, eu teuluoedd a'u gofalwyr, fel bod

gan y person sydd ag anghenion gofal a chymorth lais a rheolaeth dros eu bywydau. Mae hyn yn golygu cael math newydd o sgwrs “beth sy’n bwysig i mi” fel rhan o’r broses asesu.

Mae ein tîm gweithredu a’n hyrwyddwyr newid yn cwblhau prosesau cymhwyso ac asesu anghenion er mwyn bodloni gofynion y rhestr wirio asesu genedlaethol. Maent yn gweithio gyda staff i ddiweddarau’r system leol fel bod modd cofnodi gwybodaeth yn electronig. Dros y flwyddyn ddiwethaf, gwnaed dros 1495 o asesiadau o angen, ac o’r rhain arweiniodd 585 ar gynllun gofal a chymorth.

Gwnaethom adolygu 1629 o gynlluniau gofal a chymorth ac adolygwyd 85.39% o fewn yr amserlen y cytunwyd arni.

ASTUDIAETH ACHOS

Canlyniadau cydgynhyrchu

Mae’r Gwasanaeth Dydd New Horizons yn yr Hen Goleg yn dal i gynnig adnodd gwerthfawr i bobl ag anableddau corfforol yn y Fro. Mae’n cynnig cyfleoedd am ystod o weithgareddau a chymorth i bob un o’r aelodau a gofalwyr. Mae’n lle i wneud ffrindiau, dysgu sgiliau newydd a magu hyder. Caiff aelodau leisio barn ynghylch ei ddatblygu, y gweithgareddau a’r cymorth sydd ar gael. Caiff hyn ei wella ymhellach dan y project peilot “Arbenigwyr drwy Brofiad” sy’n helpu aelodau i nodi blaenoriaethau at y dyfodol a gweithio gyda’r awdurdod i roi newidiadau ar waith. Mae’r ffordd mae pobl yn defnyddio New Horizons wedi newid mewn ymateb i farn pobl sy’n ei ddefnyddio ac mae bellach yn defnyddio dull seiliedig ar gyfleoedd sesiynol, sy’n fwy hyblyg.

Mae defnyddwyr gwasanaeth New Horizons wedi bod yn allweddol i gynhyrchu fideo hyfforddiant proffesiynol i staff y ganolfan alwadau ar sut i ymgysylltu â phobl ag anableddau mewn ffordd sy’n galluogi cyfathrebu gwell. Gwnaed y fideo gan Legal and General ac mae New Horizons wedi ennill nifer o ddyfarniadau a gwobrau cenedlaethol ac mae’n dechrau cael ei gydnabod ar lefel genedlaethol fel arfer gorau i ganolfannau galwadau. Drwy wrando ar beth mae defnyddwyr gwasanaeth wedi’i ddweud am New Horizons y nod yw gwella ystod y gweithgareddau a gynigir gan y gwasanaeth gyda’r posibiliad o gynyddu nifer y bobl sy’n defnyddio New Horizons.

Parhau i gynyddu nifer y taliadau uniongyrchol

Mae taliadau uniongyrchol yn rhan bwysig o gefnogi pobl wrth reoli eu lles eu hunain. Maent yn ddewis amgen i gael cymorth a drefnir yn uniongyrchol gan y gwasanaethau cymdeithasol. Bu i ni gynyddu nifer y defnyddwyr gwasanaethau oedolion sy’n derbyn taliadau uniongyrchol o 175 o ddefnyddwyr ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2015-16 i 242 o ddefnyddwyr yn ystod 2016-17.

Rydym wedi annog pobl i reoli eu hiechyd eu hunain a helpu pobl i fabwysiadu a chynnal ffyrdd iach o fyw. Mae nifer y bobl sy’n cwblhau’r cynllun atgyfeirio ymarfer corff wedi cynyddu’n sylweddol i ychydig yn llai na’n targed Llywodraeth Cymru eleni. Ar 97% mae’r targed cwblhau ar y cynllun yn arbennig o agos at fwrw’r targed a bennwyd i’r Fro ar gyfer 2017-18 gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae’r tîm yn gweithio’n uniongyrchol ag Iechyd Cyhoeddus

Cymru a Llywodraeth Cymru i wella ein dulliau casglu data ac edrychwn ymlaen at ffigurau eleni.

Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf a pham?

Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chydgynhyrchu canlyniadau lles personol y mae pobl am eu cyflawni

I gynnwys pobl mewn meysydd a gynllunnir i ddysgu lefelau boddhad ac i lywio ffurf gwasanaethau yn y dyfodol. Manylir y rhain yn y cynlluniau gwasanaeth ar gyfer 2017-2021. Yn eu plith mae:

- Treialu defnyddio system rheoli a mesur achosion sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn y Gwasanaeth Gofal Hirdymor.

Mae hyn i gynyddu lefel y llais a'r rheolaeth sydd gan unigolion dros eu gwasanaethau ac i gynyddu gwydnwch gofal cartref.

- Treialu Panel Cynnwys Dinasyddion i bobl ag anghenion gofal a chymorth dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae hyn er mwyn sicrhau bod y bobl yr effeithir arnynt gan y gofal a'r cymorth a drefnwn a rhoi yn gallu dylanwadu ar ein modelau gwasanaeth.

SAFON LLES DAU: Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hyrwyddo iechyd corfforol a meddwl a lles emosiynol pobl

Mae Bro Morgannwg yn ymrwymedig fel rhan o'i Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2016 i 2020 i gefnogi ei drigolion i ddod yn fwy actif ac iach. Un o'n nodau yw annog a hyrwyddo ffyrdd actif ac iach o fyw, ac o ganlyniad rydym wedi gweld gwelliannau mewn lefelau cyfranogi mewn hamdden er bod yn rhaid i ni wneud mwy i godi lefelau ymgysylltu'n gyffredinol.

Mae nifer o ffactorau rhyng-gysylltiedig yn cyfrannu at sicrhau bod gennym iechyd corfforol a meddwl da a lles emosiynol. Nid yw hyn yn unigryw i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau cymdeithasol, ond gallai fod ar y bobl sydd yn eu defnyddio angen mwy o gymorth i gyflawni canlyniadau cadarnhaol a byw bywydau boddhaus. Dim ond drwy roi pobl yn wrth ganol y gwasanaeth, a gweithio gyda nhw, eu teuluoedd a'u gofalwyr ac ystod eang o bartneriaid y gallwn eu cefnogi i sicrhau'r lles gorau posibl.

Rydym wedi sicrhau llwyddiant sylweddol drwy waith partneriaeth cadarnhaol ar draws Bro Morgannwg sydd wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol iawn i bobl. Gyda'nartneriaid rhanbarthol a lleol, rydym wedi cyflwyno rhaglen ddiwygio gwasanaethau sy'n cael ei rheoli dan y Gronfa Gofal Canolraddol.

Beth bwriadom ei wneud y llynedd?

Pennom ystod o flaenoriaethau i'w cyflawni dros y flwyddyn ddiwethaf gan gynnwys y canlynol:

- Gyda'n partneriaid rhanbarthol a lleol, rydym wedi cyflwyno rhaglen ddiwygio gwasanaethau sy'n cael ei rheoli dan y Gronfa Gofal Canolraddol.
- Gwella cymorth i bobl hŷn a phobl fregus drwy gydlyn gofal yn well rhwng y gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, tai a'r trydydd sector a'r sector annibynnol drwy'r system, ac atgyfnerthu gwydnwch y system gyfan (gan gynnwys gofal nas trefnir).
- Datblygu ymhellach fodolau gwasanaeth sy'n pwysleisio ar wella mynediad i wasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar, gan gynnwys mabwysiadu arferion comisiynu sy'n hyrwyddo gwydnwch cymunedol.
- Parhau i ganolbwyntio ar ddatblygu gwasanaethau cymorth i deuluoedd ac ail-alluogi i hyrwyddo annibyniaeth.
- Nodi ffyrdd o gomisiynu gwasanaethau'n fwy effeithiol pan fo pryderon ynghylch safon neu gynaliadwyedd gofal, yn enwedig gofal cartref a darpariaeth seibiant.

I ba raddau y llwyddom a pha wahaniaeth wnaethom ni?

Yn ogystal â blaenoriaethau penodol y flwyddyn ddiwethaf, mae ein Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) wedi cael eu hadolygu yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, gan gynnwys cyflwyno Gwasanaeth Lles Emosiynol sy'n hyrwyddo cymorth lles emosiynol ac ymyriadau byr i bobl ifanc hyd at 18 oed. Mae'r bartneriaeth gref rhwng Iechyd a'r awdurdod lleol a'r buddsoddiad parhaus gan Iechyd wedi ategu'r dull hwn o weithredu. Nododd yr adolygiad gydnabyddiaeth gynyddol o straen, pryder, iselder a phroblemau ymddygiadol gan gynnwys cymryd risgiau ymhlith plant a phobl ifanc.

Amlygwyd hefyd asesiadau risg amserol a gwasanaethau arbenigol. Mae cymorth iechyd meddwl sylfaenol wedi trosglwyddo i'r adran Iechyd Plant Cymunedol, ac mae gwasanaeth anhwylderau niwro-ddatblygiadol newydd wedi'i gyflwyno.

Ym Mro Morgannwg, mae nifer o ysgolion wedi bod yn defnyddio system we ('Selfie') i gynnal arolwg lles gyda disgyblion. Ers ei chyflwyno yn 2015, mae dros 9,000 o blant ym Mro Morgannwg wedi'u harolygu. Mae hyn wedi helpu i nodi plant â lefelau is o les a chynorthwyo â datblygu cynlluniau gweithredu a dargedir i wella eu lles.

Cynhaliwyd 'pythefnos adborth' iechyd meddwl rheolaidd yn 2016 ar draws Caerdydd a Bro Morgannwg. Roedd yn cynnwys arolwg papur ac ar-lein, grwpiau ffocws ar y cyd â Hafal a digwyddiad 'Dathlu Gwella'. Cwblhawyd 44 o arolygon a chafodd 128 o bobl eu cynnwys drwy grwpiau ffocws neu'r digwyddiad.

Gyda'n partneriaid rhanbarthol a lleol, rydym wedi cyflawni'r rhaglen o ddiwygio gwasanaethau sy'n cael ei rheoli dan y Gronfa Gofal Canolraddol.

Yn 2016-17 rhoddwyd arian i wneud mwy o waith integredig rhwng y gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, tai a'r trydydd sector i gefnogi:

- pobl hŷn i gynnal eu hannibyniaeth, osgoi derbyniadau diangen i'r ysbyty ac oedi wrth ei adael;
- gwasanaethau integredig i bobl ag anableddau dysgu;
- gwasanaeth awtistiaeth integredig yng Nghymru;

- gwasanaethau integredig i blant ag anghenion cymhleth; a
- datblygu System Wybodaeth Gofal yn y Gymuned Cymru (WCCIS).

Gwella cymorth i bobl hŷn a phobl fregus drwy gydlyn gofal yn well rhwng gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, tai a'r trydydd sector a'r sector annibynnol drwy'r system, ac atgyfnerthu gwydnwch y system gyfan (gan gynnwys gofal nas trefnir).

Mae gwelliannau'n dal i gael eu gwneud wrth leihau cyfradd yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal (pan fo pobl yn aros yn yr ysbyty ond y gellid eu rhoi mewn llety mwy priodol) am resymau gofal cymdeithasol. Mae Gwasanaeth Cyflawni Integredig y Fro wedi bod yn allweddol wrth alluogi pobl i ddod o'r ysbyty â'r pecynnau cymorth y mae eu hangen arnynt. Mae'n dal i wneud cysylltiadau gwell â wardiau ysbyty. Mae Swyddog Atebion Llety yn y tîm ac mae'n cynnig mynediad cyflym i dai, addasiadau, glanhau tŷ a llety â chymorth. Gwnaed gwelliannau pellach wrth leihau cyfradd yr achosion oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol. Gwnaed newidiadau i sut y caiff y dangosydd perfformiad hwn ei gyfrifo fel nad oes modd cymharu â blynyddoedd cynt mwyach. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod cynnydd da'n cael ei wneud wrth leihau nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal.

ASTUDIAETH ACHOS

Aeth Mrs P i'r ysbyty o gartref oherwydd na allai symud o gwmpas na gadael y tŷ mwyach ac roedd yn unig a sâl. Fe'i disgrifiwyd fel bariatrig (term meddygol am bwyso 25+ stôn, roedd hi'n 45 stôn) ac ni allai symud ar ei phen ei hun. Dywedodd y Gwasanaeth Ambiwlans na allai ei dychwelyd gartref am fod yr eiddo'n rhy fach iddi fynd mewn ac allan ohono'n ddiogel heb wneud addasiadau adeileddau sylweddol. Yn anffodus oherwydd natur yr eiddo nid oedd modd ei addasu. Gweithiodd gweithiwr cymdeithasol o'r Gwasanaeth Cyflawni Integredig gyda'r Swyddog Atebion Llety a Therapydd Galwedigaethol i sicrhau eiddo newydd a gwneud addasiadau angenrheidiol fel y gallai adael yr ysbyty ac adennill ei bywyd gartref gyda'i gŵr.

Datblygu ymhellach fodelau gwasanaeth sy'n pwysleisio gwella mynediad i wasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar, gan gynnwys mabwysiadu arferion comisiynu sy'n hyrwyddo gwydnwch cymunedol.


Estynnwyd Mantais Gyfeillgar (gwasanaeth cyfeillio i bobl hŷn) i fis Mawrth 2017. Creodd y cynllun grant Cronfa Gofal Canolraddol chwe gwasanaeth ychwanegol a sefydlwyd y cyfan i fod yn gynaliadwy ac yn hunan-ariannu. Yn eu plith mae gwasanaeth gosod ramp newydd gan Gofal a Thrwsio, cymorth gwell i bobl hŷn ag anabledd dysgu gan Pobl yn Gyntaf y Fro, cymorth i alluogi menter gymdeithasol (y Sied Fwyd) i weithredu ar draws y Fro'n dosbarthu bwyd poeth, therapi celf a chreffft gan Nexus, clwb cinio i bobl hŷn gan Broiect Ieuencid Tregatwg, a phroject i leihau nifer y bobl hŷn sy'n yfed gormod, gan Taith.

Parhau i ganolbwyntio ar ddatblygu gwasanaethau cymorth i deuluoedd ac ailalluogi, i hyrwyddo annibyniaeth

Mae gwaith y Grŵp Alinio Tlodi wedi bod yn ganolog i ddarparu gwasanaethau cydlynol gyda phwyslais effeithio ar ddarparu gwasanaethau cymorth i deuluoedd. Un o'n llwyddiannau mwyaf oedd gweithredu Llinell Gyngor Teuluoedd yn Gyntaf sy'n dargyfeirio atgyfeiriadau i ffwrdd o'r gwasanaethau uniongyrchol a hyrwyddo cymorth amserol.

Mae Gwasanaeth Adnoddau Cymunedol y Fro'n parhau i dyfu ac yn cefnogi mwy o bobl i adennill annibyniaeth.

Mae nifer y defnyddwyr Teleofal newydd, pecynnau TeleV a TeleV+, yn cynyddu'n araf gyda 795 o becynnau TeleV ar waith, a 149 o becynnau TeleV+ ar waith. Mae perfformiad yn uwch na'r targed chwarterol a bennwyd.



Nodi ffyrdd o gomisiynu gwasanaethau'n fwy effeithiol pan fo pryderon ynghylch safon neu gynaliadwyedd gofal, yn enwedig gofal cartref a darpariaeth seibiant.

Cafwyd trafodaeth barhaus â'n holl wasanaethau a gomisiynir mewn perthynas â sut rydym yn darparu ar gyfer pwysau ariannol ychwanegol ar ein darparwyr annibynnol i sicrhau cydymffurfiaeth ag asiantaethau allanol gan gynnwys CThEM ac AGGCC.

Yn y flwyddyn ddiwethaf, cyflwynom gyfradd sylfaenol i gomisiynu gofal cartref; roedd hyn i sicrhau y gallai darparwyr gydymffurfio â rheoliadau wrth ofalu am ein dinasyddion. Rydym yn dal i weithio gyda'r holl ddarparwyr i roi atebion i'r heriau hyn.

Ychydig iawn o ddarparwyr a gafodd eu monitro ar gamau olaf ein prosesau perfformiad Darparwyr. Dengys hyn, er gwaetha'r pwysau ar y sector annibynnol, fod y mwyafrif yn dal i gynnig gwasanaethau o safon.

Mewn ymateb i Ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014, i gynyddu dewis a rheolaeth i ddinasyddion, gwnaethom dreialu'n llwyddiannus fodel newydd i gomisiynu gofal cartref. Enw'r cynllun peilot oedd 'Eich Dewis' ac roedd yn cynnwys un asiantaeth yn gweithio gyda'n staff a defnyddwyr gwasanaeth i ddatblygu'r gwasanaethau o gylch canlyniadau a nodir ar gyfer unigolyn. Roedd y canlyniadau'n gadarnhaol ac rydym bellach yn bwriadu cyflwyno'r model comisiynu hwn i'r holl becynnau gofal cartref yn y flwyddyn ariannol i ddod.

Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf a pham?

Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hyrwyddo iechyd corfforol a meddwl a lles emosiynol pobl

Bydd gwaith partneriaeth â Bwrdd Iechyd y Brifysgol Caerdydd a'r Fro'n hanfodol wrth gyflawni ein blaenoriaethau yn 2017-18. Y rhain fydd:

- Datblygu Proses Cymeradwyo Pecynnau Gofal gydlynol â BIP i wella ymhellach y Gwasanaeth Cyflawni Integredig.

Bwriad hyn yw lleihau dyblygu ymdrech, lleihau oedi wrth hwyluso pobl i adael yr ysbyty, gwella canlyniadau i bobl ag anghenion cymhleth a helpu i wireddu unrhyw fuddion yn y dyfodol drwy drefniadau cyllideb a rennir.

- Gweithio gyda phartneriaid ar y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i gynllunio gwasanaethau mewn ymateb i Asesiad Anghenion y Boblogaeth.

Mae hyn yn ofynnol fel rhan o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014.

SAFON LLES TRI: Gweithredu i warchod a diogelu pobl rhag cam-drin, esgeuluso neu niwed

Mae diogelu'n ymwneud ag amddiffyn plant ac oedolion rhag cam-drin neu esgeuluso ac addysgu'r rhai sydd o'u cwmpas i adnabod yr arwyddion a'r peryglon. Hon yw ein prif swyddogaeth fel adran gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol. Mae'r Ddeddf wedi gwneud rhai newidiadau a chyflwyno dull partneriaeth cryfach, cadarn ac effeithiol o ddiogelu. Un o egwyddorion pwysicaf diogelu yw ei fod yn gyfrifoldeb ar bawb. Rhaid i bob gweithiwr proffesiynol a sefydliad wneud popeth y gall i sicrhau bod plant ac oedolion mewn perygl yn cael eu diogelu rhag cam-drin.

Mae'r partneriaethau allweddol eraill y mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn flaenllaw ynddynt yn dal i weithio'n dda. Mae hyn yn cynnwys y Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc, y Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol a'r Bwrdd Diogelu Oedolion a ail-lansiwyd fel byrddau Rhanbarthol i Fro Morgannwg a Chaerdydd yn ystod 2014/15.

Beth bwriadom ei wneud y llynedd?

Y llynedd, cyflwynom ein cynlluniau ar gyfer blaenoriaethau diogelu yn 2016/17. Pennwyd blaenoriaethau i weithredu arnynt i blant ac oedolion ac rydym wedi bod yn llwyddiannus wrth sicrhau gwelliannau.

Enwom ystod o flaenoriaethau gan gynnwys:

- Datblygu gwasanaethau a fydd yn ein galluogi i ostwng nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal yn ddiogel.
- Datblygu a rhoi strategaeth cam-fanteisio'n rhywiol ar blant ar waith ar gyfer Bro Morgannwg, sy'n cynnwys pob parti perthnasol yn briodol.
- Gweithredu'r fframwaith statudol newydd i ddiogelu oedolion rhag cam-drin, gan gynnwys Gorchymyn Cymorth Diogelu Oedolion.
- Adolygu'r protocol perfformiad darparwyr 'Uwchgyfeirio Pryderon' a sicrhau bod y camau gweithredu hyn yn cael eu hamlinellu mewn ymateb i Operation Jasmine a bod Adroddiad Flynn wedi'i gwblhau.
- Datblygu ymhellach Canolfan Adnoddau Dementia Tŷ Rondel drwy gyfuno i raddau mwy helaeth â gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol.

I ba raddau y llwyddom a pha wahaniaeth wnaethom?

Datblygu gwasanaethau a fydd yn ein galluogi i ostwng nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal yn ddiogel.

Mae gwella canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal yn hanfodol. Gallent fod yn byw gyda gofalwyr maeth; gartref â'u rhieni neu'r teulu ehangach dan oruchwyliaeth gwasanaethau cymdeithasol; mewn cartrefi plant preswyl; mewn lleoliadau preswyl eraill fel ysgolion neu unedau diogel. Mae'n bosibl eu bod wedi'u gosod mewn gofal yn wirfoddol gan eu rhieni neu efallai bod y Gwasanaethau Plant wedi ymyrryd oherwydd bod plentyn mewn perygl difrifol o niwed.

Rydym am ddatblygu gwasanaethau a fyddai'n ein galluogi i ostwng nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal yn ddiogel. Nod nifer ohonynt yw cefnogi plentyn neu berson ifanc sydd am aros i fyw gyda'i deulu neu yn y gymuned leol. Pan nad yw hyn yn bosibl neu pan fo'n anniogel, ceisiwn ddod o hyd i lleoliadau iddynt sy'n diwallu eu hanghenion. Gan amlaf, mae hyn yn golygu eu bod yn byw mewn gofal maeth ym Mro Morgannwg, er mwyn iddynt allu cynnal eu cysylltiadau â theulu, ffrindiau a'r ysgol.

Er bod nifer y plant sy'n Derbyn Gofal mewn gwirionedd wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn, mae hyn yn cynnwys cynnydd nodedig yn nifer y lleoliadau â rhieni â'r teulu ehangach lle caiff plant eu gosod gyda'u rhiant/rhieni, teulu neu gyfeillion dan fantell gorchymyn cyfreithiol, ac maent felly'n "Derbyn Gofal". Mae nifer y plant mewn gofal preswyl wedi lleihau dros y tair blynedd flaenorol o 23 i 13.

Rydym wedi sefydlu project peilot a fydd yn darparu ac yn gwerthuso dull dwys newydd o weithio gyda phlant a theuluoedd drwy roi cymorth uniongyrchol yn y cartref teuluol a lleoliadau perthnasol eraill. Nod y project yw ein galluogi i drefnu adnoddau'n brydlon ac i weithio gyda theuluoedd i wella eu gallu i rianta ac ateb

anghenion plant. Mae'r gwasanaeth ychwanegol wedi'i dargedu at deuluoedd y cynllunnir i'r Plentyn sy'n Derby Gofal ddychwelyd atynt i'w gartref, neu at deuluoedd y mae eu henwau ar y gofrestr amddiffyn plant ac sydd mewn perygl o fod mewn sefyllfa Derby Gofal.

Bydd gweithio mewn ffordd gydlynol ar draws asiantaethau a phrojectau'n cyflawni canlyniadau gwell i blant. Cymeradwyodd Cabinet Bro Morgannwg Strategaeth Gorfforaethol ar gyfer Plant y mae arnynt Angen Gofal a Chymorth ym mis Medi 2016 fel Strategaeth Cyngor Cyfan yn cydnabod cyfraniad holl Gyfarwyddiaethau'r Cyngor. Mae Grŵp Rheoli Cyngor cyfan ar waith i fonitro gweithredu'r cynllun cysylltiedig, gan adrodd i'r Panel Rhianta Corfforaethol. Byddwn yn edrych ar yr hyn a ddysgw'n ac yn dod o hyd i ffyrdd o wneud gwelliannau pellach.

Yn ogystal â hyn, mae'r Grŵp Alinio Tlodi yn manteisio ar gyfleoedd i sicrhau gweithio cydlynol rhwng gwasanaethau rhaglenni Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Cymorth Teuluol Dwys a Cymunedau Yn Gyntaf.

Datblygu a chyflawni strategaeth camfanteisio'n rhywiol ar blant i Fro Morgannwg sy'n cynnwys pob parti perthnasol yn briodol.

Lluniwyd Strategaeth Camfanteisio'n Rhywiol Ar Blant ac mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau ei gweithredu'n llawn. Mae'r broses atgyfeirio Fframwaith Asesu'r Risg o Gamfanteisio Rhywiol (SERAF) yn gweithio'n dda ac mae bellach yn gysylltiedig â'r Strategaeth.

Pan gredir bod plant neu bobl ifanc mewn perygl o gamfanteisio rhywiol, cynhelir asesiad risg gydag adnodd SERAF. Caiff achosion a ystyrir yn 'risg sylweddol' eu cyfeirio'n awtomatig at Brif Swyddog y Cyfarwyddwr o fewn Polisi a Diogelu sy'n cynnull ac yn cadeirio cyfarfod strategaeth amlasiantaeth dan Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan.

I sicrhau y rhoddwn ystyriaeth ddyledus i blant neu bobl ifanc y mae pryderon yn eu cylch ond nad oes sgôr 'risg sylweddol' ar eu cyfer yn ôl Fframwaith Asesu'r Risg o Gamfanteisio Rhywiol (SERAF), mae gennym bellach broses ar waith lle gall asiantaeth neu gorff proffesiynol atgyfeirio achos i ystyried a oes pryderon y cytunir arnynt. Os mai dyma'r achos, bydd yr asesiad canlynol yn ystyried y materion hyn a chaiff yr achos ei gyfeirio at y Prif Swyddog Diogelu a Pholisi sy'n ystyried lefel yr ymyrraeth ofynnol. Gallai amrywio o gynnig gwasanaethau cymorth i fwrw ymlaen â strategaeth sy'n cynnwys y gweithwyr proffesiynol perthnasol. Hefyd, mae'r prosesau newydd yn ein galluogi i gael gafael ar ddata'n fwy effeithiol am nifer y plant lle mae pryderon camfanteisio'n rhywiol yn eu cylch.

Gweithredu'r fframwaith statudol newydd i ddiogelu oedolion rhag cam-drin, gan gynnwys Gorchymyn Cymorth Diogelu Oedolion.

Cynhaliwyd **hyfforddiant** cenedlaethol i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Gorchymyn Cynnal Diogelu Oedolion ar ôl hyfforddi staff y rheng flaen. Ar ôl hyn, rydym yn ystyried cynlluniau i ddatblygu gwasanaeth rhanbarthol yn y maes gwaith hwn i oedolion a phlant.

Adolygu'r protocol perfformiad darparwyr 'Uwchgyfeirio Pryderon' a sicrhau bod y camau gweithredu hyn yn cael eu hamlinellu mewn ymateb i Operation Jasmine a bod Adroddiad Flynn wedi'i gwblhau.

Rydym yn rhoi'r camau gweithredu yng Nghynllun Gweithredu Operation Jasmine ar waith, yn benodol wrth edrych ar ffyrdd o sicrhau bod polisïau a phrosesau'n alinio â rhai Cyngor Caerdydd ac rydym wedi adolygu'r polisi uwchgyfeirio pryderon fel bod yr hyn a wnânt a'n terminoleg yn gyson ar draws y rhanbarth lle bynnag y bo'n bosibl.

Datblygu ymhellach Canolfan Adnoddau Dementia Tŷ Rondel drwy fwy o integreiddio rhagor â gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol.

Mae gan Dŷ Rondel Wasanaeth Dydd i bobl hŷn sy'n byw yng Nghanolbarth a Dwyrain Bro Morgannwg a allai ddioddef o broblemau'n ymwneud o oed fel breuder, salwch cronig, anabledau neu ddementia. Gwelodd Tŷ Rondel gynnydd yn y galw o du pobl sy'n byw gartref â dementia a thrwy bartneriaethau gwell â gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol, mae wedi gwella'r gwasanaethau y mae'n eu cynnig i bobl sy'n byw â dementia. Mae Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol Bro Morgannwg i Bobl Hŷn wedi integreiddio Tŷ Rondel i'w raglen cyflwyno staff newydd fel bod yr holl weithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol yn ymwybodol o'r gwasanaeth, a chafwyd cynnydd cysylltiedig yn nifer yr atgyfeiriadau.

Gan weithio mewn partneriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r BIP ystyrir Tŷ Rondel yn rhan allweddol o Gymuned Deall Dementia'r Fro drwy hyrwyddo delweddau cadarnhaol o ddementia a thrwy gynnal digwyddiadau agored i ddefnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr ac aelodau'r cyhoedd.

Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf a pham?

Gweithredu i warchod a diogelu pobl rhag cam-drin, esgeuluso neu niwed

- Gwella gweithdrefnau â darparwyr gofal nyrsio, preswyl a chartref i alluogi ymyrraeth gynnar ac atal digwyddiadau rhag cael eu huwchgyfeirio.

Mae'r gwaith hwn ar gam cynharach gyda darparwyr cyn bo unrhyw ddirywiad ehangach mewn safonau gofal.

- Sicrhau bod staff ac atgyfeirwyr posibl yn ymwybodol o'r gofynion dan y canllawiau statudol o ran eu dyletswydd i adrodd pryderon am ddiogelu.

Mae hyn er mwyn sicrhau y cawn wybodaeth am bobl mewn risg fel y gallwn ymyrryd fel y bo'n briodol.

SAFON LLES PEDWAR: Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a bod yn rhan o gymdeithas

Mae'r Ddeddf yn rhoi sail gyfreithiol i'n hymrwymiad i gefnogi pobl i wneud beth sy'n bwysig iddyn nhw. Mae pawb yn wahanol a phawb am gael cyfle i fwynhau bywyd da waeth beth y mae hynny'n ei olygu iddynt. Byddwn yn cynorthwyo pobl i wneud y pethau sy'n bwysig iddynt. Gallai hyn fod yn dysgu sgil newydd, cwrdd â phobl, datblygu buddiant presennol neu gyfrannu at ddylunio gwasanaethau. Dengys ein

Hasesiad Lles fod Bro Morgannwg, ar y cyfan, yn ardal sydd ag incymau a chyfraddau cyflogaeth sy'n uwch na'r cyfartaledd, er bod ardaloedd megis dwyrain y Barri lle mae cyrhaeddiad addysgol yn is a gellir cysylltu hyn ag incymau a lefelau cyflogaeth is.

Beth bwriadom ei wneud y llynedd?

Enwom ystod o flaenoriaethau i'w cyflawni dros y flwyddyn ddiwethaf gan gynnwys:

- Adolygu ein dull o ymdrin â rôl Rhianta Corfforaethol y Cyngor i sicrhau ein bod yn hyrwyddo'n effeithiol cyfleoedd bywyd y grwpiau mwyaf agored i niwed ymhlith plant a phobl ifanc.
- Sicrhau bod nifer digonol o staff yn cael eu hyfforddi'n briodol er mwyn cyflawni'r agweddau ar y Ddeddf sy'n delio â gwella'r ffyrdd y gall pobl wneud cais am gymorth a'u bod yn cael cymorth mewn ffordd amserol.

I ba raddau y llwyddom a pha wahaniaeth a wnaethom?

Adolygu ein dull o ymdrin â rôl Rhianta Corfforaethol y Cyngor i sicrhau ein bod yn hyrwyddo'n effeithiol cyfleoedd bywyd y grwpiau mwyaf agored i niwed ymhlith plant a phobl ifanc.

Datblygwyd Strategaeth Gorfforaethol a Chynllun Gweithredu i Blant ag Agen Gofal a Chymorth newydd ac fe'i cymeradwywyd gan y Cyngor cyfan. Mae'r Strategaeth yn adeiladu ar bedwar amcan allweddol:

- Cefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd a lleihau'r angen am i blant fynd i ofal drwy sicrhau ffocws ar ymyrraeth gynnar a gweithredu ataliol trwy'r holl wasanaethau plant, gan gynnwys darparwyr statudol ac annibynnol.
- Rheoli risg yn gyfrinachol a rhoi cymorth ar 'ymylon gofal' drwy sicrhau bod angen a risg yn cael eu hasesu'n gywir a chael yr ymateb cywir fel bod y plant cywir yn cael llety ar yr adeg gywir. Mae hyn yn cynnwys cefnogi teuluoedd drwy wneud trefniadau preifat â'u rhwydweithiau teuluol ehangach.
- Darparu a chomisiynu cymysgedd hyblyg a fforddiadwy o leoliadau o safon uchel sy'n bodloni'r ystod amrywiol o anghenion plant.
- Rhoi teithiau a gynlluniwyd yn glir i blant drwy ofal, sy'n canolbwyntio ar gyflawni cynlluniau gofal; atal ymddieithrio; eu galluogi i gael eu haduno â'u teulu a'u ffrindiau lle y bo'n bosibl; rhoi lleoliadau a chyfleoedd sefydlog i symud o'r system ofal mewn ffordd gadarnhaol.

Mae un cam gweithredu allweddol yn nodi bod "Pobl ifanc mewn gofal neu'n gadael gofal yn gallu manteisio ar hyfforddiant, dysgu, sgiliau swydd a chyfleoedd prentisiaeth sydd ar gael i'r Cyngor neu ei rwydweithiau partner. Mae hyn yn gosod sylfaen i gyfleoedd i bobl ifanc, gyda'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru, y Ganolfan Byd Gwaith, Coleg Caerdydd a'r Fro a darparwyr hyfforddiant lleol. Mae'r dull Cyngor yn parhau i weithredu'r dull hwn fel rhan o'i waith ehangach ar draws adrannau.

Mae eirioli dros blant a phobl ifanc yn flaenoriaeth barhaus a bellach mae dull cenedlaethol o eirioli statudol i blant a phobl ifanc yn cael ei gyflwyno ledled Cymru,

gyda chytundeb y caiff gwaith comisiynu ei wneud ar lefel ranbarthol. Rhagwelwn y bydd contract rhanbarthol ar waith erbyn mis Gorffennaf 2017.

Sicrhau bod nifer digonol o staff yn cael eu hyfforddi'n briodol er mwyn cyflawni'r agweddau ar y Ddeddf sy'n delio â gwella'r ffyrdd y gall pobl wneud cais am gymorth a'u bod yn cael cymorth mewn ffordd amserol.

Buom yn rhan o gynllun peilot llwyddiannus o'r hyfforddiant 'Sgwrs Well' a roddwyd gan Asiantaeth Wella'r Gwasanaethau Cymdeithasol (SSIA). Ar ôl hynny, comisiynwyd rhaglen hyfforddiant bwrpasol o'r enw 'Sgyrsiau Ysbrydoledig' gennym, i wella sgwrsio, gwrando, casglu gwybodaeth a chofnodi, a sgiliau nodi canlyniadau mewn staff. Mae'r hyfforddiant hwn wedi'i deilwra i fodloni anghenion pob lefel o staff o'r pwynt cyswllt cyntaf drwy reolwyr. Mae'n rhan hanfodol o weithio gyda phobl i ddeall beth sy'n bwysig iddynt a bydd yn llywio ein gwaith i gasglu adborth gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn y dyfodol.

ASTUDIAETH ACHOS

Gweithio gyda Phobl a Phartneriaid

Enillodd ein gwaith i gynyddu nifer y cyfleoedd i bobl ag anableddau, i gyfrannu mewn gweithgareddau corfforol, Wobr Efydd gan Insport gan Chwaraeon Anabledd Cymru, y wobr uchaf ar gael ar y pryd, ac rydym yn gweithio ar gyflawni'r wobr Arian. Rydym yn parhau i weithio gyda chlybiau chwaraeon i gynyddu'r nifer sydd naill ai'n cynnwys cyfleoedd anabledd cynhwysol neu gyfleoedd penodol. Hyd yma eleni mae 47 o glybiau wedi bod yn cynnig amryw gyfleoedd i bobl anabl gyfrannu mewn gweithgareddau chwaraeon, sy'n rhagori ar y targed o 24.

Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf a pham?

Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a bod yn rhan o gymdeithas

- Llwyddo caffael Gwasanaeth Eirioli i Blant ac Oedolion yn unol â'r dull cenedlaethol.

Cyflawni'r gofyniad o ran eirioli a benderfynir drwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (2014).

SAFON LLES PUMP: Cefnogi pobl i ddatblygu a chynnal perthnasau domestig, teuluol a phersonol iach yn ddiogel

Caiff perthnasau effaith ar ein lles. Mae'n bwysig i ni gefnogi pobl i ddatblygu a chynnal y perthnasau sy'n bwysig iddynt. Mae hefyd yn bwysig ein bod yn helpu pobl i adnabod perthnasau anniogel a'u helpu i'w diogelu rhag cam-drin neu esgeuluso. Rydym yn cefnogi unigolion a theuluoedd i gynnal perthnasau diogel ac iach ond gwyddom fod llawer i'w wneud e.e. mae canran y plant mewn angen lle mae cam-drin domestig yn ffactor rhianta yr uchaf yng Nghymru (51% ar 31 Mawrth 2015).

Beth bwriadom ei wneud y llynedd?

Enwom ystod o flaenoriaethau i'w cyflawni dros y flwyddyn ddiwethaf gan gynnwys:

Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf a pham?

Cefnogi pobl i ddatblygu a chynnal yn ddiogel berthnasau domestig, teuluol a phersonol iach

- Cynyddu'r defnydd o ofal ail-alluogi i helpu pobl i gyflawni eu potensial i fod yn annibynnol a lleihau'r angen am ofal a drefnir gan y cyngor.

Cynorthwyo pobl i fyw mor annibynnol â phosibl a gwneud y defnydd mwyaf o'n hadnoddau cyfyngedig.

- Cwblhau cynllun peilot ein Cynllun Maethu Therapiwtig y bwriedir iddo hyrwyddo sefydlogrwydd lleoliadau i Blant sy'n Derbyn Gofal.

Mae hyrwyddo sefydlogrwydd lleoliadau a lleihau symud lleoliadau'n cynorthwyo â chyflawni canlyniadau cadarnhaol ac yn cynorthwyo plant a phobl ifanc i gyflawni eu potensial.

- Ymestyn y cynllun peilot ar gyfer Cymorth Teuluol Uniongyrchol i wella'r cyfle y bydd plant yn aros a'u teuluoedd.

Bwriad hyn yw helpu i atal plant rhag Mynd i Ofal neu gynorthwyo plant â dychwelyd at eu teuluoedd.

SAFON LLES CHWECH: Gweithio gyda a chefnogi pobl i gyflawni lles economaidd gwell, meddu ar fywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n bodloni eu hanghenion

Mae cael digon o arian i fyw arno, mwynhau bywyd cymdeithasol a byw mewn lle sy'n bodloni eich anghenion yn eich galluogi i fyw bywyd llawn ac mae'r rhain yn agweddau allweddol ar les. Cefnogwn bobl i gyflawni'r hawliau sylfaenol hyn mewn nifer o ffyrdd, yn gweithio ar draws y Cyngor a gyda phartneriaid allweddol mewn awdurdodau lleol, y sector preifat a Llywodraeth Cymru. Yn ein Hasesiad Lles i Fro Morgannwg gwnaethom nodi ystod o gyfleoedd seilwaith a allai gefnogi cyfleoedd cyflogaeth lleol a chynaliadwy. Yn ogystal, gwyddom fod y mwyafrif o drigolion naill ai'n eithaf bodlon neu'n fodlon iawn ar safon eu cartrefi.

Beth bwriadom ei wneud y llynedd?

Enwom ystod o flaenoriaethau i'w cyflawni dros y flwyddyn ddiwethaf gan gynnwys:

- Adolygu llety gydag opsiynau gofal i bobl hŷn ac ail-ddylunio ein Strategaeth Gomisiynu mewn partneriaeth â Thai a Bwrdd Iechyd Y Brifysgol.
- Nodi ffyrdd o gomisiynu gwasanaethau'n fwy effeithiol pan fo pryderon ynghylch safon neu gynaliadwyedd gofal, yn enwedig gofal cartref a darparu gwasanaeth seibiant.
- Gweithredu cynllun 'Pan Fydda i'n Barod – Cynllunio Trosglwyddo i fod yn Oedolyn i Bobl sy'n Gadael Gofal'.

I ba raddau y llwyddom a pha wahaniaeth a wnaethom?

Adolygu llety gydag opsiynau gofal i bobl hŷn ac ail-ddylunio ein Strategaeth Gomisiynu mewn partneriaeth â Thai a Bwrdd Iechyd y Brifysgol.

Cydnabyddir ansawdd, addasrwydd, gallu i addasu a fforddiadwyedd tai ar gyfer pobl hŷn fel ffactorau allweddol wrth alluogi unigolion i barhau i fyw'n annibynnol gyhyd â phosibl.

Rydym wedi parhau i roi llety â chymorth ac wedi gwella dewisiadau llety drwy ehangu'r Gwasanaeth Lleoliadau Oedolion. Mae'r gwasanaeth yn cynnig lleoliadau hirdymor a byrdymor i bobl sy'n byw mewn amgylchedd teulu cefnogol. Ar hyn o bryd mae 30 o bobl mewn lleoliadau hirdymor a 36 mewn lleoliadau seibiant byrdymor yn y gwasanaeth a byddwn yn parhau i ystyried ffyrdd o ehangu ein gwasanaethau.

Mae gwaith wedi dechrau i gynyddu'r defnydd o ofal ail-alluogi gartref. Gwnaed cynnydd tuag at weithio i gefnogi datblygiad gwasanaethau integredig pellach ar ddiwedd y flwyddyn drwy agor uned ail-alluogi yn Nhŷ Dyfan.

Nodi ffyrdd o gomisiynu gwasanaethau'n fwy effeithiol pan fo pryderon ynghylch safon neu gynaliadwyedd gofal, yn enwedig gofal cartref a darparu gwasanaeth seibiant.

Mae gweithredu Cynllun Peilot Maethu Therapiwtig wedi cefnogi'r gwaith o gyflawni sefydlogrwydd lleoliadau a gostwng nifer y lleoliadau yr amharwyd arnynt. Mae'r cynllun peilot yn ystyried effaith defnyddio seicotherapydd a staff gofal cymdeithasol i weithio gyda gofalwyr a phlant i leihau amharu ar leoliadau a'r ddibyniaeth ar leoliadau mwy costus. Mae ein perfformiad yn dangos rhwng mis Mawrth 2014 a mis Mawrth 2017 lleihaom nifer y bobl ifanc ag angen lleoliadau preswyl prif ffrwd o 23 i 13.

Neilltuwyd £3 miliwn i godi'r tai Cyngor newydd cyntaf ym Mro Morgannwg ers 17 blynedd. Cytunwyd ar gynlluniau a bydd y gwaith adeiladu'n dechrau'n fuan ar ddau ddatblygiad tai newydd i deuluoedd ag oedolion a phlant ag anableddau'n y Barri. Bydd y datblygiadau newydd hyn yn dai i bobl ag anghenion gwirioneddol, sydd mewn rhai achosion wedi bod yn aros am amser hir a byddant yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau'r trigolion.

Gweithredu cynllun 'Pan Fydda i'n Barod – Cynllunio Trosglwyddo i fod yn Oedolyn i Bobl sy'n Gadael Gofal'.

Mae polisi "Pan Fydda i'n Barod" Llywodraeth Cymru yn galluogi pobl ifanc mewn gofal maeth i aros yn eu lleoliad maeth hyd at eu 21 blwydd oed ond nid yw'n berthnasol i bobl ifanc mewn cartrefi preswyl ac ag anghenion cymorth mwy. Fel rhan o'r strategaeth gomisiynu i blant a phobl ifanc, mae'r Cyngor yn ehangu ei opsiynau llety i bobl ifanc ddigartref a phobl ifanc sy'n gadael gofal. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth tai a rennir penodedig i bobl ifanc ag anghenion cymorth llai sy'n cynnal eu tenantiaethau eu hunain gyda chymorth yn ôl yr angen. Mae gennym hefyd ragor

o lety â chymorth, lle mae pobl ifanc yn byw yng nghartref rhywun arall ac yn byw'n rhannol annibynnol. Mae gennym 22 gwely mewn llety â chymorth. Mae datblygiad newydd mewn partneriaeth rhwng y Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Chefnogi Pobl i ddatblygu opsiwn llety â chymorth 24/7. Bydd hwn yn broject peilot i bobl ifanc 16-21 oed y mae ganddynt anghenion cymorth lefel uchel ac sy'n ddigartref.

Mae Bro Morgannwg yn 'siop un stop' i bobl ifanc sydd mewn perygl o ddod yn ddigartref. Mae'r dull hwn yn unfath ag yng Nghaerdydd ac felly mae'n gyson ar draws y rhanbarth. Ym mhob ardal mae'r 'siop un stop' yn cynnwys sefydliadau trydydd sector a Gwasanaethau Plant. Mae hefyd wasanaeth cyfryngu i bobl ifanc dros 13 oed, ac mae Gwasanaeth Cymorth yn ôl yr Angen arbenigol a arenir gan Cefnogi Pobl i bobl ifanc dros 16 oed.

Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf a pham?

Gweithio gyda a chefnogi pobl i gyflawni lles economaidd gwell, meddu ar fywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n bodloni eu hanghenion

- Parhau i weithio ar ddatblygu strategaeth gomisiynu effeithiol ar gyfer llety gyda gofal i fodloni'r galw cynyddol neu alluogi pobl hŷn i aros yn annibynnol gyhyd ag y bo hynny'n ymarferol.

I sicrhau bod gennym strategaeth ar gyfer datblygu llety a all gefnogi anghenion ein poblogaeth hŷn.

- Datblygu ymhellach y defnydd o daliadau uniongyrchol â phwyslais penodol ar anableddau dysgu.

Cynyddu cyfradd y defnyddwyr gwasanaeth sydd â rheolaeth fwy dros eu trefniadau gofal.

5. Sut y Gwnawn yr Hyn a Wnawn

(a) Ein Gweithlu a Sut Rydym yn Cefnogi eu Rolau Proffesiynol

Mae'r Gyfarwyddiaeth yn parhau i ganolbwyntio ar lefel dda o gadw staff, recriwtio llwyddiannus a staff effeithiol, er gwaetha'r pwysau ar y gyllideb ac adleoli staff. Mae gennym ar waith, ac rydym yn cyflawni, cynlluniau sector gweithle cyfan sy'n dangos bod ar hyn o bryd weithlu digonol, medrus, diogel wedi'i ffocysu sydd ar gael i fodloni anghenion a asesir. Mae'r cynlluniau hyn yn mynd i'r afael â materion recriwtio a chadw, cymwysterau fetio, cofrestru, cymwyseddau, cymysgedd sgiliau, anghenion hyfforddiant a gofynion cymorth.

Ein blaenoriaethau gwella ar gyfer 2016-17 oedd:

- Adolygu'r cynlluniau olyniaeth staff sydd ar waith, gan fod gennym weithlu sy'n heneiddio mewn rhai meysydd allweddol fel haenau Rheolwyr Tîm.
- Helpu staff i wella eu dealltwriaeth o'r prif newidiadau deddfwriaethau a'u goblygiadau.
- Dwyn ymlaen â chynnig i gydlynu unedau hyfforddiant gwasanaethau cymdeithasol ar draws Bro Morgannwg a Chaerdydd.

Ers 2015, buom yn buddsoddi yn ein pobl o'r newydd. Rydym wedi lansio Siarter Staff sy'n nodi'r disgwyliadau sydd gan y Cyngor o'r staff ac fel arall. Wedi'i gefnogi gan fframwaith cymhwysedd rheolwyr newydd, gweithgareddau ymgysylltu â staff a chyfleoedd hyfforddiant a datblygu, mae'r ffordd y caiff ein hadnodd pwysicaf ei ddatblygu a'i reoli'n dechrau cyflawni canlyniadau gwirioneddol.

Wrth gynnal a gwella ein gwasanaethau gwnaethom nodi ystod o gamau gweithredu blaenoriaethol i'n sefydliad, i sicrhau ein bod yn cefnogi ein staff i barhau i gyflawni'r newid gofynnol.

Ar gyfer 2017-18 rydym yn bwriadu:

- Cyflawni hyfforddiant fel y bo'n briodol i staff i sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru).

(b) Ein Hadnoddau Ariannol a Sut Rydym yn Cynllunio at y Dyfodol

Caiff y Gyllideb Gwasanaethau Cymdeithasol ei monitro'n ofalus gydol y flwyddyn. I sicrhau monitro effeithiol mae Bwrdd Rhaglen Cyllideb i oruchwylio a gweithredu'n drylwyr. Mae hyn yn cynnwys diweddarau cynnydd yn rheolaidd yn erbyn targedau arbedion yn ogystal â dealltwriaeth o'r pwysau cynyddol sy'n wynebu'r Cyngor. Ystyrir cynlluniau arbedion a phwysau cost unigol gan Gabinet y Cyngor ar gyfnodau priodol gydol y flwyddyn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i barhau i gefnogi llywodraeth leol a'i phartneriaid wrth gefnogi'r trawsnewidiad dan y Ddeddf newydd ac ystod yr heriau sy'n wynebu'r sector. Roedd £3 miliwn o arian grant ar gael yn 2016/17 i gefnogi'r

broses o gyfuno, gyda dyraniad o £425,220 i ranbarth Bro Morgannwg a Chaerdydd, i barhau i gyflawni'r agenda drawsnewid / gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy.

Trawsnewidiwyd yr adnoddau hyn i'r Grant Cynnal Refeniw o 2017/18 i gydnabod y rhaglen barhaus o newid y mae ei hangen dan y Ddeddf a'r angen i barhau i weithio gyda phartneriaid yn lleol ac ar draws y rhanbarth.

(c) Ein Gwaith Partneriaeth, Arweinyddiaeth Wleidyddol a Chorfforaethol, Llywodraethu ac Atebolrwydd

Ar gyfer 2016/17 gwnaethom nodi nifer o gamau gweithredu â blaenoriaeth i sicrhau y byddai ein sefydliadau'n addas at y diben wrth gynllunio'n ystyrion at y dyfodol ac y gallem reoli ystod o alwadau o fewn ein dyraniad cyllidol. Ein blaenoriaethau gwella ar gyfer 2016-17 oedd:

- Dod o hyd i fwy o ffyrdd o sicrhau, drwy'r Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau, bod gan staff y sgiliau a'r hyfforddiant angenrheidiol i'w helpu i addasu i'r heriau yn y ffordd y caiff gwasanaethau eu cynllunio a'u cyflawni;
- Gwneud newidiadau i strwythur y Gyfarwyddiaeth fel ei bod yn addas at y diben wrth fodloni gofynion statudol newydd a'r heriau sylweddol sy'n wynebu gofal cymdeithasol.

Mae gofal cymdeithasol yn rhan allweddol o'r hyn a wna'r Cyngor ac mae gennym gefnogaeth wleidyddol gref ac effeithiol wrth gyflawni ein cyfrifoldebau ar draws ystod o gyfrifoldebau. Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) wedi cymeradwyo'n gyson y ffordd y mae'r Gyfarwyddiaeth yn cyfrannu at drefniadau llywodraethu corfforaethol effeithiol iawn. Mae rheolwyr yn gweithio'n galed i sicrhau bod y Weithrediaeth, y Pwyllgor Craffu a'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn cael y cyngor a'r wybodaeth broffesiynol orau posibl ar yr holl faterion Gwasanaethau Cymdeithasol, i sicrhau y gall ein Cyngorwyr ein dwyn i gyfrif am ein perfformiad.

Ail-ddyluniwyd strwythur y Gyfarwyddiaeth ac mae wrthi'n cael ei roi ar waith. Cwblheir hyn yn ystod 2017/18.

Mae'r trefniadau llywodraethu ar gyfer rheoli ein trefniadau partneriaeth, gweithio gyda'r GIG, Cyngor Caerdydd a'r Trydydd Sector wedi parhau i weithio'n dda. Rydym yn parhau i sicrhau bod dull cyson yn cael ei weithredu at y rhaglen amrywiol iawn hon drwy Fwrdd Rhaglen Cydweithredu'r Gyfarwyddiaeth, sy'n cwrdd bob mis i oruchwylio rhaglenni diwygio partneriaethau mawr.

Drwy gynlluniau strategol allweddol, ymdrechwn i sicrhau bod gweledigaeth a chyfeiriad clir i'r Gwasanaethau Cymdeithasol, yn rhannol i sicrhau ymrwymiad staff i safonau uchel a gwelliant parhaus i'r Gyfarwyddiaeth.

6. Cael Gwybodaeth Bellach a Dogfennau Allweddol

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi, ynghyd â gwybodaeth a gwaith dadansoddi allweddol, lwyddiant yr awdurdod lleol i wella lles y bobl y mae arnynt angen ein help a'r cymorth. Nid hon yw'r unig ffynhonnell wybodaeth sydd ar gael i aelodau'r cyhoedd, partneriaid allweddol a darparwyr gwasanaeth. Mae gennym lawer iawn o wybodaeth gefndirol sy'n sylfaen i'r adroddiad hwn ac sy'n rhoi llawer mwy o fanylder ychwanegol am yr hyn a wnawn a sut y'i gwnawn. Yn bwysicaf, os na nodir rhywbeth fel blaenoriaeth allweddol yn yr adroddiad hwn nid yw'n golygu nad ydym yn ei wneud, gan fod llawer o weithgarwch ar draws y gwasanaethau cymdeithasol sy'n chwarae ei ran wrth ein helpu i ddarparu ar gyfer rhai o'r grwpiau mwyaf diamddiffyn yn ein cymuned.

I weld rhagor o wybodaeth am yr hyn a wnawn, dyma rai o'r dogfennau a rydd fwy o fanylion:

- Cynllun Corfforaethol Cyngor Sir Bro Morgannwg 2016 – 2020
- Adroddiad blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro
- Aseiad Anghenion Y Boblogaeth Caerdydd a'r Fro
- Adroddiadau AGGCC
- Adroddiad SAC